# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 06.08.2024

Presennol: Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Meredydd Williams, Eurwyn Jones, Gareth Jones, Elfed Roberts

1. Ymddiheuriadau: Lynda Massarelli

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: GJ, HP

2a. Datgan Diddordeb: Dim

**3. Materion yn codi o'r cofnodion**

3.556 Cae Chwarae Gellilydan- ymateb wedi ei dderbyn gan Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd,

*Nid wyf yn gweld sut y gallai Bwrdeistrefol ariannu gwaith i draenio'r tir ym maes chwarae sydd ddim bellach o dan ein rheolaeth, a mae'r gyllideb mor dyn y mae'n anodd iawn i ni gyllido'r gwaith ar gyfer cynnal a chadw y 34 o feysydd chwarae yr ydym yn ei reoli ym Meirionnydd yn barod.*

*Ddrwg gennyf nad wyf yn gallu helpu fwy ar hyn.*

3.557 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – Elfed Roberts wedi cyfarfod gyda Amanda Murray ac Bryn Hughes, gwybodaeth i'w anfon mlaen i'r clerc.(cadw mlaen).

3.558 National Grid: Yn dilyn cyfarfod gyda Dwynwen, Adroddiad byr gan Meredydd Williams yn siarad am grantiau sydd ar gael.

3.559 Parcio Gellilydan: Clerc wedi cysylltu ac Adran Parcio y cyngor, disgwyl ymateb. Clerc i gysylltu a Heddlu Gogledd Cymru i ofyn os ydi yn iawn i barcio ar linellau melyn (mewn lle peryg gyda phlant yn croesi ffordd) gyda bathodyn glas.

3.560 Neuadd y Pentref - Cyfansoddiad y Neuadd i ddilyn, LM am anfon copi i'r ymddiriedolwyr, (cadw mlaen).

3.561 Plas Tan y Bwlch - Ymateb wedi ei dderbyn gan Judith Orritt.

*Ar ran Iwan Jones, y PW dros dro, isod diweddariad cryno ar y sefyllfa hyd yn hyn.*

*Mae llawer o hanes yr Awdurdod ynghlwm gyda'r Plas ac mae felly yn sefyllfa anodd iawn i'r Awdurdod. Yn anffodus, nid trafferthion dros dro sydd wedi ein gadael yn y sefyllfa yma. Y gwir yw ein bod fel Awdurdod wedi ceisio nifer o wahanol opsiynau yn ystod y pymtheg mlynedd diwethaf er mwyn ceisio darganfod model busnes fyddai yn lleihau y gost i'r Awdurdod o gynnal y ganolfan – sy'n costio o gwmpas chwarter miliwn y flwyddyn i'r Awdurdod ei chynnal cyn ystyried y gwariant sylweddol sydd angen i gynnal adeilad rhestredig. Rydym eisoes wedi holi cyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ond mae'n wir dweud fod arian yn hynod dynn ymhobman.*

*Er yr uchod gallaf gadarnhau bod yr Awdurdod yn awyddus i sicrhau dyfodol hir dymor y Plas ond rhaid cydnabod bellach nad yw yn ein gallu i ariannu'r ganolfan ein hunain. Fel rhan o'n hymdrechion i sicrhau dyfodol hir dymor y Plas rydym wedi cysylltu gyda chwmnïau lleol ac mae trafodaethau yn parhau gydag un cwmni cymunedol. Bu i'r Awdurdod benderfynu y byddai angen opsiwn pellach, os*



EHoyle 8/10/24

*nad yw trafodaethau o'r fath yn llwyddiannus, ac i'r diben yma mae penderfyniad hefyd wedi ei wneud i hysbysebu'r ffaith ein bod yn agored i gynigion unai ar gyfer rhyw fath o weithio mewn partneriaeth neu ar gyfer trosglwyddiad llawn. Unwaith y bydd y wybodaeth lawn ar gael bydd yr Awdurdod mewn sefyllfa i ystyried penderfyniad terfynol. Ond, carwn chi wybod y bydd dyfodol hir dymor y Plas yn chwarae rhan flaenllaw mewn unrhyw benderfyniad o'r fath.*

3.562 – Safleoedd Bysiau Maentwrog –ER am gysylltu eto gyda Rhian Wyn Williams.

3.563 Hyfforddiant – Clerc I anfon dyddiadau ymlaen.

3.564 Is-bwyllgor – creu is-bwyllgor ar wahân i'r Cyngor – (cadw mlaen).

3.565 Cŵn – Clerc I gwblhau yr holiadur.

3.566 Gellilydan / Maentwrog – ymateb wedi ei dderbyn gan Adrian Williams,

Nodaf eich sylwadau a hoffwn ymateb i'r pwyntiau fel y ganlyn.

**Oes unrhyw drefniant yn ei le i dorri gwrych / coed o amgylch y pentref, hefyd ar y mynedfa o'r briffyrdd i mewn i'r pentref?** *Cadarnhaf fod trefniant yn ei le i ail ymweld a'r tyfiant sydd o fewn y Briffordd yn dechrau mis Medi. Unrhyw dyfiant sydd o eiddo preifat, byddwn yn llythyru gyda'r perchennog.*

**Hyd y gwyddwn nid yw'r wal yn Maentwrog wedi ei drwsio, oes unrhyw dyddiad am wneud hyn?** *Hoffwn eich hysbysu mae'r wal ar ein rhaglen waith ar gyfer eleni a bydd derbyn sylw yn fuan. Mae tyllau profion wedi ei cynnal er cael tystiolaeth o pibellau dwr ar y safle a cysylltiad wedi ei wneud gyda SP Power Systems mewn perthynas a symud ei polyn, ond heb dderbyn ymateb hyd yma. Byddwn hefyd angen dyfnder y graig er mwyn ein Peirianwyr Strwythurol cynllunio i rhoi angorau i'r wal newydd.*

**Llinellau melyn sydd wrth Gwesty'r Grapes, oes posib eu symud mwy lawr at y bont?** *Mae'r mater yma wedi ei drosglwyddo i Adran Traffig yn Caernarfon oherwydd fydd angen Gorchymyn.*

*Gobeithiaf fod hyn yn eich diweddaru.*

## 4. Materion i'w trafod ar y pryd

4.233 Asesiad Risg – wedi ei gwblhau gan Lynda Massarelli. Trafod cyfarfod nesaf.

4.234 Archwiliad Allianz – Cysylltu a GL Jones am bris i atgyweirio yr offer.

4.235 Diffibilirwyr: Cais o'r gronfa hyd at £200, ER am adrodd nôl gyda phris.

4.236 Lwfansau Aelodau y cyngor – Cyfarfod nesaf.

## 5. Ariannol

5.165 Cyfrif Cadw: £224.00

5.166 Cyfrif Cyfredol: £3780.78

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.167 Cyngor Gwynedd: £750.00

5.168 Archwilio Cymru: £328.00

5.169 Archwilio Cymru: £385.00



CamScanner

5.170 Un Llais: £134.00

5.171 Allianz: £538.69

5.172 Clerc / Taliad Ychwanegol : £480

5.173 HMRC: £119.80

<u>6. Cynllunio</u>

Dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:

6.71 NP5/73/LB321/B – Station House, Tan y Bwlch, Maentwrog - Caniatâd Adeilad Rhestredig i ychwanegu drws yn y pared, cynllun ystafell molchi

diwygiedig, ychwanegu rhosyn nenfwd i'r ystafell fyw, ac amnewid y stôf yn y gegin fel

newidiadau i Ganiatâd Adeilad Rhestredig NP5/73/LB321A dydd.iedig 12/01/2024

6.72 NP5/73/441B Wern Meirch, Gellilydan. LL41 4RE - Addasiadau ac ailosod to ar adeilad allanol sydd ynghlwm i ffurfio estyniad i'r tŷ presennol a gwaith cysylltiedig

<u>7. Gohebiaeth</u>

245 Grantiau Awyr Fawr

246 Ymgynghoriad Rheoli Cwn

247 Cefnogi Cymuned Bro Ffestiniog

248 Cyfoeth Naturiol Cymru – Ymgynghoriad Cyhoeddus

<u>8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill</u>

8.27 Ysgol Tan Gelli mewn camau arbennig dros dro, yn dilyn arolwg Estyn.

<u>9. Mynwent Dwyryd</u>

9.46 Cyfrif y Fynwent: £20280.64

Cytunwyd i dalu y canlynol:

9.47 Martin Kerr £920.00

9.48 Richard Jones: £100

9.49 EJ wedi cael cyfarfod anffurfiol gyda Mr & Mrs Rix, (cadw mlaen).

9.50 Angen torri mwy ar lwybr, (cae y fynwent). MW am gysylltu a Richard Jones.

9.51 Meredydd Williams wedi bod mewn cysylltiad a cwmni mapio digidol o Ddolgellau. Gwybodaeth i ddilyn, (cadw mlaen).

<u>Dyddiad Cyfarfod Nesaf</u>

Hydref yr 8fed, Neuadd y Pentref am 6.30 o'r gloch.



8/10/24

CamScanner